# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 25 Ionawr 2021

## SL(5)717 – Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau a restrir isod. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â gofynion preswylio arferol o fewn y rheoliadau hynny, a'u nod yw sicrhau bod unigolion y rhoddwyd iddynt ddiogelwch dyngarol, caniatâd i aros fel person diwladwriaeth neu sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 yn cael eu trin yn yr un modd â'r rhai y rhoddwyd iddynt statws ffoadur:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Bydd y diwygiadau yn dileu'r gofyniad am breswylio fel arfer am gyfnod o dair blynedd ar gyfer y categorïau hyn o fyfyrwyr. Mewn perthynas â chymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr, ceir gofyniad bod person yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf ei gwrs. Mae'r gofyniad i breswylio fel arfer am gyfnod o dair blynedd i'w ddileu ar gyfer y rheini sydd â math o ganiatâd sy'n seiliedig ar ddiogelwch i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU. O ganlyniad, bydd myfyrwyr yn y categorïau hyn yn cael eu trin yn yr un modd ag y mae ffoaduriaid yn cael eu trin at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, nid oes angen i ffoaduriaid fodloni gofyniad i breswylio fel arfer am gyfnod o dair blynedd cyn dechrau eu cwrs.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983, Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
**Fe'u gwnaed ar:** 06 Ionawr 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 07 Ionawr 2021
**Yn dod i rym ar:** 28 Ionawr 2021